**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Heol y Celyn**

**Dydd Mercher, 14 Tachwedd am 2.30pm**

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd**

**Yn bresennol**

Gaynor Davies (GD), Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Richard Evans (RE), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol
Andrea Richards (AR), Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif
Nicola Goodman (NG), Uwch Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif
Kylie Lewis (KL), Swyddog Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr
30 aelod o staff yr ysgol a llywodraethwyr
1 cynrychiolydd Undeb Llafur

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Rhoddodd Gaynor Davies (GD) ddiolch am gyfranogiad y disgyblion a'u sylwadau da iawn.

Croesawodd GD bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynigion, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r Cyngor am wneud y canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol y Celyn - byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;

- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'pob oed' 3 -16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;

- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a chreu ysgol 'pob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei symud i'r ysgol newydd.

- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen;

Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:

- Trosglwyddo ardal Graig Pontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)

- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen);

- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog).

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ar waith erbyn Medi 2022.

Cyfeiriodd GD at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopïau o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.
Eglurodd GD y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd.
Pwysleisiodd GD mai dyma gyfnod o ymgynghori a phe bai'r cynigion yn symud ymlaen at y cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi yn ystod y cam hwnnw.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

***C. Mae rhieni presennol wedi gwneud ymholiadau yn barod i symud eu plant o'r adran Saesneg i'r adran Gymraeg o ganlyniad i'r pellter i deithio i'r Ddraenen Wen. Mae disgwyl i ragor o ddisgyblion ymuno â'r adran***

***Gymraeg ym mis Ionawr 2019. Beth sy'n digwydd os yw'r cynnydd yma yn uwch na nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd?  Byddai'n drueni pe bai angen i ddisgyblion sy'n lleol i'r ardal gael eu cludo i ysgol arall.***

A. Esboniodd GD y byddai meini prawf derbyn disgyblion yn cael eu rhoi ar waith pe bai nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd.

***C. Beth fydd cyfanswm y lleoedd yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd?***

A. Rhoddodd GD wybod y byddai cyfanswm o 480 o leoedd, sef 100 o leoedd ychwanegol na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd nifer y lleoedd yn cael ei fonitro'n agos; mae'n bosibl y bydd dalgylchoedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig gyda datblygiadau tai newydd yn yr ardal. Mae'r Awdurdod yn adolygu ac yn cyflawni gwaith cynllunio nifer y lleoedd ysgol yn rheolaidd, felly byddai unrhyw broblemau yn cael eu rhagweld cyn iddyn nhw godi.

***C. Fyddai gan ddisgyblion Pont Siôn Norton flaenoriaeth o ran derbyn lle***?

A. Nododd GD y byddai meini prawf derbyn disgyblion yr Awdurdod yn cael eu rhoi ar waith. Tynnodd GD sylw at y ffaith bod rhai disgyblion sydd yn nalgylch Heol y Celyn yn mynd i ysgolion tu allan i'r dalgylch yn barod.

***C. Sut byddai'r Awdurdod yn mynd i'r afael â phroblemau traffig?***

A. Esboniodd AR y byddai asesiadau/gwaith arsylwi yn cael eu cynnal ar adegau gwahanol i fonitro llif y traffig a gwneud argymhellion. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau llwybrau diogel ar gyfer pob disgybl. Mae'n bosibl y byddai parthau casglu/gollwng yn cael eu creu.  Enghraifft wedi'i nodi o'r £480,000 a gafodd ei wario ar gynlluniau Cwm Rhondda mewn perthynas â llwybrau diogel i ysgolion.  Mae'r adran gynllunio yn mynnu gwneud hyn hefyd.

***C. Sawl disgybl o ddalgylch Heol y Celyn sy’n mynd i Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen?***

A. Amlinellodd GD fod data diweddar yn dangos bod 97 o ddisgyblion o ddalgylch Heol y Celyn yn mynd i Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen.

***C. Beth yw canran disgyblion yr ardal hon sy'n mynd i Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen?***

A. Esboniodd AR y byddai 97 o ddisgyblion yn cyfateb i tua 40% o gofrestr Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen.  Mae disgyblion dalgylch Heol y Celyn hefyd yn mynd i ysgolion eraill e.e. Parc Lewis (42 o ddisgyblion o ddalgylch Heol y Celyn); Ysgol Gynradd Cefn (2 ddisgybl o ddalgylch Heol y Celyn).

Sylw gan staff / llywodraethwyr – Mae'n bosibl mai dyma ganlyniad disgyblion

yn dewis ysgolion eraill pan nad oedd Heol y Celyn yn dda iawn ac mae'n debyg bod brodyr/chwiorydd bellach yn mynd i'r un ysgol 'arall'.

***C. Mae nifer y disgyblion sy'n dechrau ym meithrinfa'r ysgol bellach yn cynyddu wrth i'r ysgol wella.***

A. Aeth 23 i'r Ddraenen Wen ac aeth 35 i Heol y Celyn.

***C.* Er *y byddai'n dda cael ysgol newydd sbon, mae pryderon ein bod ni'n colli ysgol sy'n rhan o'r gymuned ac sy'n ddwyieithog. Rhannu darpariaeth dwy iaith yw'r pryder mwyaf.***

A. Nododd GD fod rhai disgyblion hefyd wedi mynegi pryderon ynglŷn â cholli ffrindiau o bosibl. Serch hynny, bydd yr ysgol newydd wrth galon y gymuned o hyd. Cynghorodd GD fod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod yn ceisio adolygu ac, o bosibl, yn cael gwared ar ysgolion dwyieithog yn RhCT. Nododd GD fod rhai o'r disgyblion wedi mynegi eu bod nhw'n awyddus i fynd i ysgol gynradd Gymraeg gan eu bod nhw o'r farn y bydden nhw yr un fath â'u cyfoedion pan ân nhw i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

***C. Oes modd i rieni weld ysgol 3-16 oed?***

A. Cadarnhaodd AR fod hyn yn bosibl; ar wefan RhCT mae fideos i rieni eu gwylio. Mae disgyblion wedi gweld rhai enghreifftiau o adeiladau Ysgolion yr 21ain Ganrif ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Bydd enghreifftiau hefyd yn cael eu dangos yn yr achlysuron ymgynghori cyhoeddus ym mis Ionawr.

***C. Mae staff yn poeni am eu swyddi a'u dyfodol, yn enwedig yn yr adran Saesneg.***

A. Esboniodd RE y byddai'r cyrff llywodraethu dros dro yn rhan o broses pob penodiad ar gyfer yr ysgolion newydd. Mae'r Awdurdod yn argymell dyrannu swyddi er mwyn rhoi'r cyfleoedd cyntaf i staff presennol yr ysgolion; byddai unrhyw swyddi heb eu llenwi yn cael eu hysbysebu'n allanol. Roedd RE wedi cydnabod mai dyma gyfnod sy'n peri pryder i bob aelod o staff, serch hynny mae gan yr Awdurdod brofiad blaenorol o gau ysgolion ac mae ganddo hanes o helpu staff trwy'r broses hon gyda deilliannau cadarnhaol. Er nad oes modd iddo addo y bydd gan bob aelod o staff swydd. Mae'n bosibl yr hoffai rhai aelodau o staff gymryd y cyfle i ymddeol neu ddileu swydd; mae cyfleoedd i adleoli hefyd.

***C. Beth yw'r amserlenni o ran y cynigion?***

A. Rhoddodd RE wybod pe bai'r cynnig yn symud ymlaen, byddai proses dwy flynedd yn cael ei chynnal cyn agor yr ysgol newydd.

Ychwanegodd AR gan ddweud pe bai'r cynnig yn symud ymlaen, byddai'r corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu ym mis Medi 2020. Byddai'r corff

llywodraethu yn cynnwys llywodraethwyr cyrff presennol yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio. Byddai'r corff llywodraethu dros dro yn penodi'r Pennaeth a byddai'r strwythur o ran staff yn dilyn.

***C.*** ***Yn y ddogfen ymgynghori, mae Uned Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi'i nodi ar gyfer y Ddraenen Wen. Pam mae'r uned yno a pham mae'r Uned yn cau yn Heol y Celyn?***

A. Amlinellodd GD fod yna ymgynghoriad arall ar wahân sydd wrthi'n cael ei gynnal i adolygu dosbarthiadau cynnal dysgu yn RhCT ac ystyried a ydyn nhw yn y lleoliad cywir ledled ardal RhCT. Mae anghenion sy'n tyfu ym meysydd penodol o gynnal dysgu. Mae gan ddarpariaeth anghenion cymhleth nifer o lefydd gwag ac mae nifer y disgyblion mae angen y ddarpariaeth hon arnyn nhw yn Heol y Celyn wedi gostwng dros y blynyddoedd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn bwriadu lleihau pontio a rhoi darpariaeth yn Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif newydd sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb. Enghraifft wedi'i nodi o ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 yn y Porth; ac Ysgol Gynradd Cwmaman – bydd un dosbarth yn agor yno gan ei bod hi'n ysgol newydd sbon ac sy'n gwbl hygyrch.

Yn y dyfodol, gallai darpariaeth fod yn Heol y Celyn, ond does dim galw amdani ar hyn o bryd. Mae adolygiadau o ddarpariaeth yn cael eu cynnal bob ychydig o flynyddoedd.

***C.*** ***Mae'n bosibl y byddai rhai rhieni yn dewis anfon eu plant i'r ysgol Gymraeg newydd gan ei bod yn agosach i'w cartrefi, ond byddai eu plant yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r iaith.***

A. Amlinellodd GD fod gan bob rhiant hawl i ddewis cyfrwng iaith addysg eu plentyn. Mae clywed yr iaith tra bod yn oedran ifanc yn golygu bod modd i blant wneud cynnydd gydag iaith. Pe bai'r plentyn yn cael heriau, byddai'r rhain yn cael eu nodi a byddai cymorth yn cael ei ddarparu.

***C.*** ***Mae'n bosibl y bydd rhai rhieni, er anfantais i'w plentyn, yn dewis ei anfon i'r ysgol anghywir.***

A. Nododd GD mai dewis y rhieni fyddai hynny, ac mae rhaid rhoi llefydd os oes rhai ar gael yn yr ysgol. Mae rhaid i ysgolion fod yn gynhwysol a gwneud y penderfyniadau cywir er budd gorau'r disgyblion.

***C.*** ***Mae staff yn teimlo na fydd yr ysgol newydd yn ysgol gymuned o ganlyniad i'r dalgylch mwy. Hefyd, fydd hi ddim yn cynnig addysg cyfrwng Saesneg. Mae staff wedi'u cynhyrfu am golli Heol y Celyn.***

A. Pwysleisiodd GD y bydd hi'n ysgol gymuned ac roedd hi wedi cydnabod bod rhai yn ei chael hi'n anodd ymdopi â newid, yn enwedig gan ystyried bod gan rai aelodau o staff hanes hir gyda Heol y Celyn. Serch hynny, hoffai'r

Awdurdod ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer disgyblion RhCT.

***C.*** ***Mae rhai aelodau o staff yn teimlo y bydd arwahanu gan y byddan nhw'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn hytrach na chymysgu'r ddwy iaith.***

A. Nododd GD fod trochi yn yr iaith Gymraeg yn gadarnhaol i ddisgyblion. Mae'r Awdurdod yn teimlo bod y cynigion yn cynnig y dewis gorau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae rhai o'r disgyblion yn yr Adran Gymraeg, Heol y Celyn, wedi gwneud sylwadau y byddai bod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn eu gwneud nhw yr un fath â'u cyfoedion o ysgolion cynradd eraill pan ân nhw ymlaen i'w haddysg uwchradd yng Ngarth Olwg.

***C.*** ***Beth sy'n digwydd os bydd athrawon yn dechrau gadael Heol y Celyn?***

A. Esboniodd GD fod ysgolion newydd yn lleoedd bywiog i weithio ynddyn nhw, a'r bwriad yw denu athrawon i'r ysgol. Bydd hyn yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Bydd yr ysgolion mwy newydd yn darparu cyfleoedd i athrawon weithio gydag ystodau oedran gwahanol. Y gobaith yw y bydd athrawon yn gweld hyn fel cyfle yn hytrach na bygythiad.

***C.*** ***Fydd gan y gymuned gyfle i siarad â'r swyddogion priodol?***

A. Amlinellodd NG y bydd noson agored i rieni, staff a'r gymuned yn cael ei chynnal ar 22 Ionawr 2019 rhwng 3.00pm a 6.00pm yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen mewn perthynas â'r ysgol 3-16 oed arfaethedig. Bydd noson agored yn cael ei chynnal ar 17 Ionawr 2019 mewn perthynas â'r cynigion cyfrwng Cymraeg. Bydd swyddogion yr Awdurdod yn bresennol a bydd sawl ffordd o roi adborth.

***C.*** ***Fydd y sesiwn yn un galw heibio?***

A. Cadarnhaodd AR gan nodi y bydd hi'n anffurfiol iawn.

Rhoddodd GD ddiolch i bawb am ddod i'r cyfarfod ac am eu sylwadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.50pm.